# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 174(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol archif ddarlledu genedlaethol i Gymru?

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw Ysgrifennydd y Cabinet yn parhau i gael hyder yn Cyfoeth Naturiol Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r

amgylchedd yng Nghymru, yn sgil adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Gwerthu Cymru i'r Byd

(60 munud)

**NDM6879** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 'Gwerthu Cymru i'r Byd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2018.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 21 Tachwedd 2018.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau

(60 munud)

**NDM6878** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Meithrin Cydnerthedd - Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2018.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mehefin 2018.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Penderfyniad Coridor yr M4

(30 munud)

**NDM6880** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu mai'r Prif Weinidog newydd, a gaiff ei benodi ym mis Rhagfyr 2018, ddylai benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â phrosiect coridor arfaethedig yr M4 o gwmpas Casnewydd, yn amodol ar ganfyddiadau'r ymchwiliad cyhoeddus lleol.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Ffermwyr

(30 munud)

**NDM6881** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhan hanfodol y mae cynllun y taliad sylfaenol yn ei chwarae ar hyn o bryd fel sylfaen i hyfywedd y fferm deuluol Gymreig, cymunedau gwledig ac economi ehangach Cymru, a phwysigrwydd taliadau uniongyrchol o ran rhoi sefydlogrwydd mewn cyfnodau o ansicrwydd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod cefnogaeth i ffermio yng Nghymru yn cael ei thargedu at y ffermwyr gweithredol hynny sy'n cymryd y risg ariannol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadw elfen o daliadau uniongyrchol ar gyfer ffermwyr wedi Brexit.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [– Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:

1. Yn nodi penderfyniad y DU i ymadael â'r UE ym mis Mawrth 2019, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'i system o gymorth i ffermydd, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol.

2. Yn cefnogi:

a. addewid Llywodraeth Cymru i barhau i gefnogi ffermwyr er mwyn eu cadw ar y tir a gwarchod ein cymunedau;

b. nod Llywodraeth Cymru i ddylunio'r system orau ar gyfer rhoi cymorth i ffermydd yng Nghymru, a nodwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar Brexit a'n Tir, gan gynnwys buddsoddiad ar gyfer cynhyrchu bwyd a chefnogaeth ar gyfer nwyddau cyhoeddus; and

c. gwarant Llywodraeth Cymru na fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i gymhorthdal incwm heb ymgynghori ymhellach, na fydd unrhyw gynlluniau newydd yn cael eu dylunio heb asesiad priodol o'u heffaith, ac na fydd unrhyw hen gynlluniau'n cael eu dileu cyn y bydd cynlluniau newydd yn barod.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau ar fyrder na fydd Cymru yn colli ceiniog o gyllid ar gyfer ffermio o ganlyniad i ymadael â'r UE.

4. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadw Cynllun y Taliad Sylfaenol fel rhan o gyfnod pontio a fydd yn para sawl blwyddyn.

Ymgynghori: Brexit a'n Tir

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ac yn ystod aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, fod nifer y ffermwyr a cynhyrchiant ffermydd wedi gostwng yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau newydd a fydd yn deillio o'r DU yn ymadael â'r UE i greu cynllun cymorth ffermio a gwledig sy'n gwasanaethu anghenion unigryw yr economi wledig ac amaethyddol yng Nghymru.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6882** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Parcffordd Abertawe: y camau nesaf ar gyfer Dinas Ranbarth Bae Abertawe?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018